

Y PWYLLGOR SAFONAU

12 Hydref 2016

Yn bresennol: Mrs J Wainwright (Y Dirprwy Gadeirydd yn y Gadair), y Cynghorydd R Kilmister, y Cynghorydd R Owens a Mrs V Tomlinson

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 10.55am)

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Mr A Archer a Mr R Barrett-Evans.

2. Datgelu buddiant

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2015 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2015.

4. Newidiadau i God Ymddygiad yr Aelodau a Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016

Eglurodd y Swyddog Monitro fod yr Aelodau wedi cael y manylion am y newidiadau hyn fel rhan o'r sgwrs hyfforddi flynyddol ac roedd eu cynnwys ar yr agenda y diwrnod hwnnw yn gyfle i aelodau'r Pwyllgor Safonau eu trafod ymhellach. O ran Cod Ymarfer yr Aelodau, roedd y prif newid yn ymwneud â dileu'r ddarpariaeth buddiant personol ynghylch y gwrthdaro canfyddedig rhwng rôl Aelod yn ei ward a phenderfyniadau a wneir ar ran yr Awdurdod (paragraff 10(2)(b) o'r Cod). Fodd bynnag, nid oedd hyn yn ymwneud ag Aelodau o'r Awdurdod am nad oedd ganddynt etholaethau wrth wasanaethu fel Aelodau o'r Parc Cenedlaethol. Bu hyn yn fater o bwys mawr i rai o'r Awdurdodau mwyaf ac roedd yr Ombwdsmon felly wedi mynd ati i symleiddio pethau.

O ran y newidiadau i Rheoliadau'r Pwyllgor Safonau ynghylch gollyngiadau, roedd dau bwynt i'w nodi. Yn gyntaf, os na allai'r Pwyllgor ymdrin â chais oherwydd prinder amser, gallai'r Awdurdod ofyn i awdurdod lleol arall ei ystyried ar ei ran. Yn yr un modd, gallai awdurdod arall ofyn i Awdurdod y Parc Cenedlaethol ystyried cais am ollyngiad. Yn ail, roedd categori newydd wedi'i gyflwyno i alluogi gollyngiad i'w roi i Aelod a oedd â buddiant niweidiol i gymryd rhan mewn mater os oedd y Pwyllgor o'r farn fod hynny'n 'briodol yr yr holl amgylchiadau'. Eglurodd y



Swyddog Moniro y byddai'n rhaid i ymgeiswyr roi rhesymau pan y dylai'r Pwyllgor dderbyn eu cais. Bu peth trafodaeth ynghylch a oedd gan y rhai a oedd yn gwneud cais am ollyngiad hawl i ddod gerbron y Pwyllgor Safonau. Dywedodd y swyddogion nad oedd rheswm pam na allai Aelod ddod gerbron y Pwyllgor ac y gallai'r Aelodau, os oeddynt yn dymuno hynny, ac er mwyn eglurder, benderfynu caniatáu hynny.

PENDERFYNWYD bod unrhyw Aelod a oedd yn gwneud cais am ollyngiad i gael cyfle i siarad yn y Pwyllgor Safonau er mwyn egluro unrhyw faterion a allai godi o'r cais am ollyngiad, ar yr amod na fyddai'r cyflwyniad ddim hwy na 5 munud.

5. Adroddiad Blynyddol y Swyddog Monitro

Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o'r ymchwiliadau a wnaed a'r adroddiadau a luniwyd gan y Swyddog Monitro yn ystod y flwyddyn flaenorol. Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at ddau gŵyn a ymchwiliwyd ganddo o dan weithdrefnau cwyno yr Awdurdod. Yn un o'r rhain roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at yr angen am well cyfathrebu gydag aelodau o'r cyhoedd sy'n cyflwyno gohebiaeth yn ystod y prosesau ymgynghori ar geisiadau cynllunio. Yr oedd o'r farn fod yr achos yn ymwneud â digwyddiadau o'r gorffennol a ddigwyddodd mor bell yn ôl â 1993, a bod safonau'r Awdurdod bellach yn uwch ac roedd felly'n annhebygol y byddai achos tebyg yn codi eto. Dywedodd hefyd fod gan yr Awdurdod bolisi cyffredinol, tebyg i'r un a fabwysiadwyd gan yr Ombwdsmon, sef mai dim ond materion a ddigwyddodd yn ystod y 12 mis blaenorol a fyddai'n destun ymchwiliad, er bod disgresiwn i fynd yn ôl ymhellach na hynny pe byddai'r achos yn hawlio hynny.

NODWYD.

6. Adroddiad Blynyddol y Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

Eglurodd y Swyddog Monitro fod yr Ombwdsmon yn ystyried cwynion am gamweinyddu a methiant o ran gwasanaethau yn erbyn cyrff cyhoeddus a honiadau yn erbyn Aelodau awdurdodau lleol eu bod wedi torri'r Cod Ymddygiad. Bu 8 cwyn yn erbyn y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru, ond ni chafwyd rhagor o fanylion. Er na chanfuwyd yn erbyn yr Awdurdod yn swyddogol roedd y Swyddog Monitro yn gwybod am un achos 'ateb cyflym' a oedd wedi'i ddatrys drwy gytundeb gwirfoddol â'r achwynydd. Nid oedd hynny wedi codi unrhyw broblemau mawr, ac roedd camau wedi'u cymryd i sicrhau na fyddai problem debyg yn codi eto yn y dyfodol

NODWYD.

